

# FFYDDL@WN

## Croeso Nô!

Dyma hi'n ddechrau tymor unwaith eto! Ydi'n plant a'n hieuenctid yn ôl yn eu gwisg ysgol yn frwdfrydig, neu'n llusgo'n ôl at wersi a gwaith cartref? Yn cychwyn dosbarth newydd neu'n dechrau yn yr ysgol uwchradd? Yng nghanol newidiadau, mae'n braf iddyn nhw wybod eich bod chi'n dal i fod yno'n eu cefnogi trwy gynnal Ysgol Sul a chlybiau. Mae digonedd o syniadau i'w cael ar gyfer gweithgarwch gyda phlant ac ieuenctid mewn llyfrau, ar DVDs, ar wefanau, ac rydym fel Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid ar gael i'ch cynorthwyo a'ch cynghori.

## 'Dan ni'n dal yma!

Ar ddechrau tymor, mae'n bwysig gwahodd y plant yn ôl.

Tybed os mai cyhoeddiad yn y capel yn unig yw'r ffordd mwyaf effeithiol o roi gwybod fod gweithgarwch plant ac ieuenctid wedi ail gychwyn?

### Mae sawl ffordd o hysbysebu:

- posterï yn eich siopau lleol,
- trwy'r ysgol (gyda chaniatâd),
- cerdyn post i aelodau llynedd, trwy rieni, neiniau a theidiau a chymdogion.



## Gweddi

"Os nad yw'r Arglwydd yn adeiladu'r tŷ,  
y mae ei adeiladwyr yn gweithio'n ofer."  
Salm 127:1

Os am lwyddiant sy'n para yn ein gwaith gyda'r plant a'r ieuenctid, rhaid wrth seilliau cadarn mewn gweddi. Beth am gymryd hyn o ddifri eleni, os nad ydych yn gwneud hynny'n barod. Gweddiwch fel arweinwyr ac fel capel. Gofynnwch i'r aelodau weddio am bethau penodol a rhowch arweiniad iddyn nhw yng nghylchgrawn y capel neu paratowch daflen weddi.

**Mae'n bwysig cofio fod y gwaith plant ac ieuenctid yn rhan o fywyd y capel i gyd ac fod gan bob aelod rôl bwysig yn cefnogi'r gwaith mewn gweddi, trwy hysbysebu ac mewn amryw o ffyrdd amrywiol yn ôl eu doniau (gweler rhifyn diwethaf Ffyddl@wn).**

## Ffyddlondeb



Tri o'r pethau pwysicaf i blant ac ieuenctid yw cyfeillgarwch, bwyd a hwyl. Maent yn llawer mwy tebygol o ddod i weithgarwch y capel os yw eu ffrindiau'n dod ac os oes yna hwyl i'w gael yno, a diod a bisged...neu fwy! Gweddiwch yn gyson dros bob plentyn. Paratowch gerdyn aelodaeth i bob plentyn a lle arno i gofnodi eu ffyddlondeb e.e. gyda

sticer neu sêr. Treuliwch amser ar ddechrau tymor yn meithrin yr ymdeimlad o dîm, fel dosbarth Ysgol Sul neu aelodau o glybiau plant neu ieuenctid, trwy chwarae gemau adeiladu tîm neu drefnu gweithgaredd sydd angen cydweithio. Gweithiwch i fagu perthynas gyda theuluoedd y plant sy'n mynychu gweithgareddau – mae'n hynod o bwysig i bob plentyn a pherson ifanc lenwi ffurflen ganiatâd ar gyfer yr Ysgol Sul neu glybiau, ac fod yr wybodaeth yn cael ei gadw'n ddiogel.

Peidiwch ag anobeithio os mai criw bach o ieuenctid fydd gennych, mae'n gyfle ardderchog i ddod i'w hadnabod yn dda ac i greu yr ymdeimlad o berthyn. Os am galonogi'r criw nad ydynt ar eu pennau eu hunain, beth am gysylltu â grwpiau eraill yn lleol a threfnu gweithgaredd ar y cyd e.e. noson gemau mewn canolfan hamdden.

## Help!

Efallai eich bod yn teimlo'n unig yn y gwaith, neu wedi bod wrthi am flynyddoedd ac yn teimlo'n flinedig cyn cychwyn tymor hyd yn oed! Peidiwch ag anobeithio, mae llawer o bobl ffyddlon, ymroddedig eraill o gwmpas! Cysylltwch ag ysgrifennydd eich Henaduriaeth i wybod pa weithgarwch sydd yn cael ei drefnu gan y Pwyllgor Plant ac Ieuenctid. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid am gefnogaeth, ac am wybodaeth am ddigwyddiadau a hyfforddiant yn eich ardal. Rydym yma i'ch cynorthwyo.

**Cysylltwch â chanolfan y Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid, Coleg y Bala, ar 01678 520565**

## Cynllunio

Os am wneud y gorau o'r amser a gewch gyda'r plant a'r ieuenctid mae'n hanfodol cynllunio ymlaen. Yn ddelfrydol buasai cynllunio tymor o weithgarwch yn wych, neu fesul hanner tymor. Mae'n gymaint haws paratoi o un wythnos i'r llall pan fo gennych gynllun, gan roi digon o amser i gael gafael ar adnoddau neu wahodd rhywun i mewn ar gyfer sesiwn wahanol.

Galwch bwyllgor! Gweddiwch! Casglwch syniadau gan ofalu fod digon o gyfle i'r plant a'r ieuenctid gael hwyl a magu cyfeillgarwch â'i gilydd. Nodwch ar galendr cynllunio pa weithgareddau neu wersi y byddwch yn eu gwneud o wythnos i wythnos, a gofawch fod gan bawb o'r arweinwyr gopi. Trefnwch rota gwirfoddolwyr os oes angen.

**Gwnewch yn siŵr fod Diogelwch Plant yn cael sylw, a bod gweithdrefnau wedi eu dilyn (gweler dogfen Er Mwyn Ein Plant).**

## Gwych, genod!

Llongyfarchiadau i dair o ferched ifanc ar gael eu penodi i dair swydd yn gweithio gyda phlant ac ieuenctid yn ddiweddar.

## Meirionnydd a'r Gogledd

Dechreuodd Gwenno Teifi fel Swyddog Ieuenctid ardal Meirionnydd o Henaduriaeth Gorllewin Gwynedd a Gogledd Cymru ym mis Gorffennaf eleni. Ym Meirionnydd, ei gwaith yw sefydlu a chynnal clybiau ieuenctid Cristnogol, ond rhwydweithio, annog a chynorthwyo eglwysi i sefydlu clybiau fydd ei gwaith yng ngweddill y gogledd. Ein gobaith yw gweld yr ifanc drwy'r clybiau yn ymateb i'r newyddion da am Iesu Grist a'u harweinwyr yn llawn hyder yn y gwaith a wnânt.

Felly, pwy ydi Gwenno?

"Rwy'n enedigol o Lanfihangel-ar-arth yn Sir Gaerfyrddin. Yn un o deulu mawr iawn, rhai yn meddwl fy mod i'n perthyn i Gymru gyfan! Ond mae rhan o nghalon yn perthyn i Aberystwyth, ble wnes i dreulio blynyddoedd yn y brifysgol yn astudio Gwleidyddiaeth a Chymraeg. Gwnes i fwynhau astudio yn y dref glan môr brydferth honno'n fawr, ond beth sy'n ei wneud yn lle arbennig i mi yw dyna ble ddes i nabod Crist am y tro cynta. Dyma wnaeth fy arwain i fyw yn ninas Amsterdam am bron i flwyddyn mewn tŷ cenhadol, yn gweithio o fewn eglwysi a gyda phobl digartref, puteiniaid a ieuenctid difreintiedig.

"Wedi teimlo yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn enwedig, drwy wneud gwahanol bethau dros yr hafau fel gweithio yn y Gorlan (yn yr Eisteddfod Genedlaethol) a mynd i Souled Out, bod Duw yn rhoi galwad i mi i weithio gyda ieuenctid, meddyliais am ychydig am fynd yn athrawes ond ddim lot o ysfa am hynny. Yna wnes i dderbyn e-bost gwyrthiol yn fy mewnflwch: y Presbyteriaid yn chwilio am weithiwr ieuenctid Cristnogol. Pendronais yn hir am symud fy mywyd i Orllewin Meirionnydd, ond gwelais yn glir bod Duw yn fy ngalw i'r fan hon i wneud y gwaith hyn, a mynd amdani drwy Ei nerth."



## Llandudno

Penodwyd Sophie Ponsford yn weithiwr ieuenctid gyda 'Youth for Christ' Llandudno, mudiad cenedlaethol sydd â Phwyllgor Lleol â chynrychiolaeth o wahanol eglwysi a mudiadau Cristnogol arno. Bydd Sophie, sy'n 27 ac yn briod â Kristian, yn gweithio gydag ysgolion ac eglwysi yn Llandudno.

"Rydan ni'n edrych ymlaen yn fawr at ddod i Landudno," medd Sophie. "Rydw i wrth fy modd yn gweithio gyda ieuenctid, ac rydw i'n edmygu gwaith 'Youth for Christ' yn fawr. Mae eu hadnoddau ar gyfer ysgolion ac eglwysi mor berthnasol. Rydw i'n edrych ymlaen at weithio gyda gweithwyr ieuenctid eraill yng Ngogledd Cymru, ac at y sialens o ddysgu Cymraeg!"

Treuliodd Sophie bedair mlynedd fel arweinydd tîm, goruchwylwraig a dawnswraig gyda'r mudiad Cristnogol Innervation Trust, Manceinion ([www.innervation.org](http://www.innervation.org)). Mae wedi cymryd rhan mewn dros 30 o wythnosau ysgolion gyda'r band ysgolion Collective, gan gyfrannu i amryw o wasanaethau, gwersi, cyngherddau a digwyddiadau ieuenctid. Y tro cyntaf i Sophie ymweld â Llandudno oedd yn Chwefror 2008 gyda'r "bandwithnoname" yn ysgol St David's.


Mae'r prosiect yn cael ei gynnal a'i gefnogi gan amryw o eglwysi lleol, Eglwys Unedig Gloddaeth (EBC/URC), Canolfan Gristnogol Emmanuel (AOG), Eglwys Unedig Gymraeg Llandudno, Bae Penrhyn (EBC), Eglwys Llanrhos a Chapel Methodistaidd St John.

## Coleg y Bala

Yn rhifyn diwethaf Ffyddl@wn clywsoch gan Zoe Jones iddi aros ymlaen yng Ngholeg y Bala am ail flwyddyn Gap. Y newyddion da yw fod Zoe wedi ei phenodi yn Rheolydd Cynorthwyol yn y Coleg ac wedi dechrau ar ei swydd ers dechrau Ebrill.

"Bellach, mae pum mis wedi mynd heibio ers i mi gychwyn fy swydd newydd fel Rheolydd Cynorthwyol yng Ngholeg y Bala. Dwi wedi bod yn ceisio'r Arglwydd ynglŷn â'r gwaith yma ac mae O wedi rhoi gwir angerdd i mi dros waith plant yma yn y Bala, ac mae'r swydd yma rŵan yn fy ngalluogi i wneud tipyn o hyn hefyd. Mae'n amser cyffrous iawn i mi, oherwydd ym mis Medi byddaf yn cychwyn clwb plant ar y cyd â Chapel Tegid a Chlwb Plant Bach yma yn y Coleg. Os gwelwch yn dda wnewch chi weddio dros of wrth i mi gychwyn y gwaith yma, y bydd yr Arglwydd yn cael ei ogoneddu trwy bopeth."





## Sunday School Attendance Boosters

(Group Publishing, tua £6)  
ISBN 0764421530

Mae'r llyfr yma'n llawn hyd yr ymylon o hwyl a syniadau creadigol i wneud eich Ysgol Sul yn rhywle y bydd y plantos am ddod iddo. Waeth pa Gwricwlwm y byddwch yn ei ddilyn, mae yma awgrymiadau gwych ar sut i gynyddu eich grŵp trwy wneud Ysgol Sul yn gyfnod llawn hwyl yng nghwmni ffrindiau, ac yn lle arbennig i brofi cariad Iesu Grist

Byddwch yn archwilio ffyrdd o gyflawni'r canlynol...

- **Annog rhieni i gymryd rhan yn rheolaidd.**
- **Creu amgylchedd cynnes, gofalgwr y bydd plant wrth eu bodd yn dod i mewn iddo.**
- **Datblygu prosiectau tymor-hir parhaus i blant, i'w cynnal o Sul i Sul.**
- **Cyfathrebu â'r plant a'u rhieni mewn dulliau llawn hwyl sy'n annog presenoldeb rheolaidd, a mwy.**

Ac yn well na dim – mae'r syniadau'n rhai rhwydd, rhad, a pharod i'w defnyddio! Hefyd maen nhw'n wych i'r plant – gallwch roi cynnig arny'n nhw gyda'ch pobl ifanc a'ch oedolion hefyd!

## Reaching and Keeping Tweenagers


Christian Research, Crusaders ac Youth for Christ, £9.99) ISBN 1-85321-147-8

Ydych chi wedi sylwi fod yr oedran y mae plant yn rhoi'r gorau i ddod i'r Ysgol Sul yn mynd yn ieuengach o hyd? Mae'n siŵr fod gennych lawer o syniadau pam fod hyn yn wir – chwaraeon, siopa, amgylchiadau teulu a llawer mwy. Yn y llyfr hwn cewch ddadansoddiad mwy manwl o'r rhesymau yn deillio o ymchwil a wnaed yn niwedd y 90au lle darganfuwyd fod tua 1000 o blant dan 15 oed yn gadael eglwys neu Ysgol Sul bob wythnos, a ddim yn dod yn ôl. Er fod 10 mlynedd ers yr ymchwil a drafodir yma, wrth ddarllen y llyfr rhaid sylweddoli nad oes fawr wedi newid.

Mae'n sicr yn lyfr ar gyfer y meddwl dadansoddiol, ond yn fwy na hynny, mae'n lyfr i'r rhai sydd o ddifri' ynglŷn â chyrraedd plant ac ieuenctid y genhedlaeth hon gyda'r newyddion da am Iesu. Daw llyfryn gwaith i annog trafodaeth fel atodiad, man cychwyn ardderchog ar gyfer rhoi hwb ymlaen i feddwl yn gadarnhaol am ddatblygu gwaith plant ac ieuenctid yn eich capel lleol. Er fod y clawr yn hysbysebu llond llyfr o siartiau a thablau,

mae yma lawer mwy, yn arbennig yng nghrynodeb pob pennod. Amlygir ambell batrwm dro ar ôl tro e.e bod ffrindiau, bwyd a hwyl yn dri ffactor pwysig i'r oedran o 8 – 14. Mae yma sawl sialens, ond fe'i cyflwynir mewn ffordd sy'n gwneud i ni feddwl am ffyrdd adeiladol i fynd ati i ymateb yn greadigol i gyrraedd ein plant a'n hieuenctid.

Nia W Williams



## Archebu adnoddau

Ydych chi'n cael trafferth archebu adnoddau? Ydych chi'n byw ymhell oddi wrth Siop Lyfrau Gristnogol? Cysylltwch â Delyth Williams, Coleg y Bala, i archebu: 01678 520565 neu [colegybala@ebpcpw.org.uk](mailto:colegybala@ebpcpw.org.uk).

Angen cyngor ar adnoddau addas? Cysylltwch â Nia W Williams drwy Goleg y Bala neu [niacolegybala@btinternet.com](mailto:niacolegybala@btinternet.com).

## Grantiau

Angen cymorth ariannol ar gyfer eich gwaith plant ac ieuenctid? Mae Gwyn Rhydderch ar gael i rhoi cyngor ynglŷn â'r grantiau sydd ar gael. Cysylltwch ag ef drwy Goleg y Bala neu ar [rhydderch@f2s.com](mailto:rhydderch@f2s.com).



## Gwefennau defnyddiol

gan Gwyn Rhydderch

I'r Gweinidog:  
<http://tiny.cc/youthwork>  
<http://tiny.cc/youthwork2>

Er bod yr erthyglau ar wefan o'r Amerig mae'r egwyddorion yn bwysig i'r Gweinidog o Gymru.

I'r Gweithiwr Plant:  
[www.presbyterian.ca/resources/online/230](http://www.presbyterian.ca/resources/online/230)

Tudalen yn cynnwys 12 erthygl. Ni fydd y cyfan o werth ond dwi'n siŵr y bydd rhai o bwys. Teitl un erthygl yw "Forty Ways to Increase Sunday School Attendance."

I'r Gweithiwr Pobl Ifanc:  
<http://tiny.cc/youthwork3>  
Erthygl ar sut i adeiladu gwaith pobl ifanc fydd yn para am flynyddoedd!



## O'r Coleg...

Wel, am flwyddyn rydym wedi ei chael hyd yma yng Ngholeg y Bala!

Canu, astudio, sŵn, distawrwydd, chwerthin, hwyl, mae'r rhain i gyd yn eiriau y gallwch eu defnyddio i'n disgrifio yma! Mae'r adnod "Ond dywedodd Iesu, 'Gadewch i'r plant ddod ataf fi a pheidiwch â'u rhwystro, oherwydd i rai fel hwy y mae teyrnas nefoedd yn perthyn'" (Mathew 19:14) wedi bod o werth mawr i ni yma yn y Coleg a dyna sy'n gyrru'r weledigaeth yma ymlaen. Mae gan yr Arglwydd le pwysig yn Ei galon i blant ac ieuenctid ac mae'n ffraind cael bod yn rhan o'r gwaith yma. Ein blaenoriaeth yn y Coleg yw dangos yr Iesu i'r plant a'r bobl ifanc, ac rydym ni'n cael amser gwych wrth wneud hyn! Cawn y cyfle i ddangos Iesu drwy bob math o waith a gweithgaredd yn ystod y penwythnosau. Mae'n braf cael dod i adnabod y plant a'r bobl ifanc a chreu perthynas gyda hwy a'u gweld yn dychwelyd dro ar ôl tro i'r Coleg. Os nad ydych wedi profi penwythnos yng Ngholeg y Bala neu os ydych â diddordeb mewn dod i wybod mwy, cysylltwch â Haf ar 01678 520565 i weld beth allwn ni ei wneud i chi!



## Dyddiadur Coleg y Bala

### Medi

11-13 Eglwys St Thomas, Dinbych  
24 Encil Chwiorydd Sasiwn y Gogledd

### Hydref

2-4 Plant Wrecsam a'r Wyddgrug  
10 Adran Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid  
9-11 Cwrs Ieuenctid  
23-25 Plant Conwy a Dyffryn Clwyd  
30 -1 Children's Weekend

### Tachwedd

6-7 Cwrs Teulu  
10 Hyfforddiant mewn swydd i Weinidigion  
20-22 Youth Weekend  
27-29 Plant Llŷn ac Eifionydd

### Rhagfyr

5 Hwyl yr Ŵyl

## Nosweithiau hyfforddiant

Hyfforddiant, cefnogaeth, adnoddau, paned!

Nosweithiau i athrawon Ysgol Sul, arweinwyr plant ac ieuenctid a gweithwyr ysgolion.

**Medi 23** Caerfyrddin, Capel Bedyddwyr Penuel

**Medi 28** Llandudno, Eglwys Unedig Gloddaeth

**Hydref 1** Penybont-ar-Ogwr, Brackla Tabernacle

**Hydref 15** Wrecsam, Capel y Groes

**Tachwedd 12** Y Fenni, Eglwys Bresbyteraidd Whitefield

Cyrraedd am 6.30yh a dechrau am 7.00yh, gyda dewis o weithdai.

Noson wedi ei threfnu ar y cyd rhwng CCSW, Undeb y Gair, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Saint y Gymuned a'r Cyngor Ysgolion Sul.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Gwyn Rhydderch neu â [VickiB@scriptureunion.org.uk](mailto:VickiB@scriptureunion.org.uk).



**SOULED OUT Cymru**

Yn dilyn y cwrs haf i oedolion ifanc (15+), bydd grwpiau lleol yn cyfarfod eto. Am fwy o fanylion, cysylltwch â Meryl Walters yng Ngholeg y Bala 01678 520565, neu ewch i wefan Souled Out Cymru: [www.souledoutcymru.net](http://www.souledoutcymru.net).

Os oes gweithgarwch plant ac ieuenctid yn digwydd yn eich ardal rhwch wybod i ni os gwelwch yn dda trwy ffonio Coleg y Bala (01678 520565) neu yrru ebost i Nia W Williams: [niacolegybala@btinternet.com](mailto:niacolegybala@btinternet.com). Gallai fod yn anogaeth a chymorth i blant ac ieuenctid eraill yn eich ardal.